



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Awdurdod Cyhoeddi Prentisiaethau Cymru

Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cymru rhif: 006/2020
Dyddiad cyhoeddi: Mai 2020

Canllawiau Awdurdod Cyhoeddi Prentisiaethau Cymru

Cynulleidfa

Mae'r ddogfen hon ar gyfer Datblygwyr Fframweithiau, Cynghorau Sgiliau Sector, rhanddeiliaid allweddol ym maes prentisiaethau, darparwyr dysgu, cyflogwyr, undebau llafur a sefydliadau dyfarnu.

Trosolwg

Mae'r canllawiau hyn yn nodi rôl yr Awdurdod Cyhoeddi yng Nghymru a'r broses o gyhoeddi fframwaith prentisiaethau neu lwybrau prentisiaethau yng Nghymru.

Camau i'w cymryd

O 1 Mai 2020 bydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo ac yn cyhoeddi pob Fframwaith Prentisiaeth yng Nghymru

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon i:

Yr Uned Prentisiaethau
Llywodraeth Cymru
Tŷ Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
Cymru
CF83 8WT

Ffôn: 03000 253706

E-bost: DfES-ApprenticeshipUnit@gov.wales



[Twitter@com/apprenticewales](https://twitter.com/apprenticewales)



[Facebook.com/apprenticeshipscymru](https://www.facebook.com/apprenticeshipscymru)

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/awdurdod-cyhoeddi-prentisiaethau>

Dogfennau cysylltiedig

Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Cynnwys Canllawiau Awdurdod Cyhoeddi Prentisiaethau Cymru

Adran 1	Cyflwyniad	Tudalen 4
Adran 2	Trosolwg o'r Broses o Ddatblygu Fframwaith	Tudalen 4
Adran 3	Rôl yr Awdurdod Cyhoeddi	Tudalen 5
Adran 4	Rôl Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru	Tudalen 5
Adran 5	Mesurau Sicrhau Ansawdd	Tudalen 6
Adran 6	Y Broses o Gyhoeddi Fframweithiau	Tudalen 6
Adran 7	Y Broses Apelio	Tudalen 7
Adran 8	Cwynion	Tudalen 8

Atodiadau

Atodiad 1	Proses yr Awdurdod Cyhoeddi	Tudalen 9
Atodiad 2	Y Broses o Ddatblygu Fframwaith	Tudalen 10

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r ddogfen ganllawiau hon yn nodi rôl yr Awdurdod Cyhoeddi yng Nghymru a'r broses o gyhoeddi fframweithiau/llwybrau prentisiaethau yng Nghymru.
- 1.2 Mae prentisiaethau yng Nghymru yn cynnig addysg â thâl ar y cyd â hyfforddiant yn y gweithle a dysgu y tu allan i'r gwaith i bobl dros 16 oed. Mae'n caniatáu i'r Prentis gynyddu ei wybodaeth dechnegol a magu profiad ymarferol go iawn ynghyd â'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen yn ei swydd bresennol ac yn ei yrfa yn y dyfodol.
- 1.3 Ers 1 Mai 2020 Llywodraeth Cymru yw'r Awdurdod Cyhoeddi ar gyfer fframweithiau/llwybrau prentisiaethau Cymru. Cyflawnwyd y rôl honno yn flaenorol gan Gynghorau Sgiliau Sector a chyrrff sector.
- 1.4 Mae'r ddogfen hon yn disodli'r holl Ganllawiau Awdurdodau Cyhoeddi Fframweithiau Prentisiaethau Cymru a gyhoeddwyd yn flaenorol.

2. Trosolwg o'r broses o ddatblygu fframwaith

- 2.1 Gall fframweithiau/llwybrau prentisiaethau gael eu defnyddio gan gyflogwyr fel rhan o'r broses o ddatblygu sgiliau staff newydd a staff presennol. Gellir eu defnyddio ni waeth a oes cymorth ariannol ar gael. Nid roddir cymorth arian cyhoeddus i Brentisiaethau yn awtomatig. Rhoddir blaenoriaeth i grwpiau penodol, ardaloedd penodol a sectorau penodol o ran prentisiaethau yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran yr economi a sgiliau.
- 2.2 Cyhoeddir amserlen tair blynedd ar gyfer adolygu a datblygu fframwaith, gan gynnwys meini prawf ar gyfer fframweithiau newydd sy'n dryloyw, yn gyson ac yn addas i'r diben.
- 2.3 Yn ogystal, byddwn hefyd yn cyhoeddi manylion galwad i weithredu gan gyflogwyr. Bydd hyn yn creu porthol i gyflogwyr gyflwyno cynigion i ddatblygu fframweithiau newydd a diweddarau fframweithiau presennol i helpu i ddiwallu anghenion eu busnesau o ran sgiliau. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael ar dudalennau gwe Prentisiaethau Llywodraeth Cymru.
- 2.4 Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu ffyrdd newydd o weithio i helpu i wella ansawdd fframweithiau prentisiaethau a llwybrau cysylltiedig yng Nghymru drwy roi trefniadau newydd ar waith i ddatblygu'r fframweithiau a'r llwybrau hynny i ddiwallu anghenion unigolion, cyflogwyr ac economi Cymru. Bydd y broses newydd hon yn atgyfnerthu'r gwaith o gomisiynu a datblygu fframweithiau prentisiaeth yng Nghymru. Bydd yn sicrhau bod fframweithiau/llwybrau o ansawdd uchel yn cael eu datblygu a'u cyhoeddi sydd o fudd i'r economi a phrentisiaid Cymru. Mae'r broses newydd hon yn golygu adolygu strwythur y fframweithiau prentisiaethau i'w gwneud yn fwy hygyrch ac yn fwy buddiol i'r holl randdeiliaid perthnasol.
- 2.5 Cyflwynwyd proses newydd sy'n cynnwys pedwar cam i'r Partneriaid Datblygu ddatblygu fframweithiau/llwybrau newydd neu ddiweddarau fframweithiau/llwybrau presennol, gan gynnwys:
 - Cam 1: Cwblhau Cynllun Prosiect.

- Cam 2: Ymgynghoriad Tystiolaeth Rhanddeiliaid gyda'r Grŵp Llywio. Mae'r cam hwn yn cynnwys sefydlu grŵp llywio, ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac ymgynghori ar y cymwysterau mwyaf priodol i'w cynnwys i fodloni'r gofynion a amlinellir yn y llwybr. Dylai hyn gynnwys cydweithio â Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a Cholegau Cymru i sicrhau bod darparwyr yn meddu ar y medrusrwydd i ddarparu'r fframwaith/llwybr ar ôl ei gyhoeddi. Rhaid llunio adroddiad terfynol ar y dystiolaeth o'r ymgynghoriad cyhoeddus â rhanddeiliaid ar ôl cwblhau'r broses ymgysylltu.
- Cam 3: Diwygio'r llwybr. Bydd y Partneriaid Datblygu yn diwygio'r llwybr i gynnwys canlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ystod cam 2. Rhaid llunio Adroddiad Tystiolaeth Ategol hefyd.
- Cam 4: Cyflwyno'r fframwaith/llwybr terfynol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo a'i gyhoeddi.

3. Rôl yr Awdurdod Cyhoeddi

- 3.1 Ar ôl i fframwaith prentisiaeth gael ei ddatblygu gan y Partner Datblygu caiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn rhinwedd ei rôl yn Awdurdod Cyhoeddi.
- 3.2 Swyddogaeth yr Awdurdod Cyhoeddi yw ardystio bod fframwaith newydd neu fframwaith sy'n cael ei ddiwygio yn bodloni safonau diwydiant a'r safonau gofynnol a nodwyd ym Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru. Math o ddilysu yw'r swyddogaeth gyhoeddi. Mae'n darparu mesur ansawdd annibynnol terfynol i brofi cydymffurfiaeth â Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru a sicrhau y bodlonir gofynion diwydiant. Mae rhagor o wybodaeth am y mesurau ansawdd hyn ar gael yn Adran 5 o'r ddogfen hon.
- 3.3 Rhaid i bob fframwaith/llwybr prentisiaeth gael eu cymeradwyo a'u cyhoeddi gan yr Awdurdod Cyhoeddi, ni waeth a ydynt wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cymru neu drwy ddulliau eraill.

4. Rôl Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru

- 4.1 Sefydlwyd Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru ym mis Ebrill 2018 ac mae'n Fwrdd a arweinir gan fentrau annibynnol, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Undebau Llafur, Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Mae Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru yn rhoi cyngor ac yn cyflwyno argymhellion i Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â chynnwys fframweithiau prentisiaethau a'u blaenoriaethau mewn perthynas â datblygu'r fframweithiau hynny yng Nghymru.
- 4.2 Mae gan Fwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru rôl allweddol o ran cynghori Llywodraeth Cymru a chyflwyno argymhellion iddi ynghylch blaenoriaethau ar gyfer comisiynu fframweithiau prentisiaethau i ddiwallu anghenion economaidd a nodi sectorau lle gall prentisiaethau newydd wneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyflogwyr a phrentisiaid. Wrth gyflawni ei rôl, bydd Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru yn ystyried anghenion sgiliau parhaus ac anghenion sgiliau yn y dyfodol, y data a'r adroddiadau sy'n cael eu cynhyrchu a'u llunio gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol mewn Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau ac Ymchwil i'r Farchnad Lafur i sicrhau bod y fframweithiau priodol yn cael eu comisiynu i ddiwallu anghenion yr economi.

4.3 Mae Bwrdd Cyngori Prentisiaethau Cymru wedi cymeradwyo'r amserlen tair blynedd ddangosol ar gyfer adolygu a datblygu'r fframweithiau prentisiaethau, fel yr amlinellir yn adran 2.

4.4 Mae rhagor o wybodaeth am Fwrdd Cyngori Prentisiaethau Cymru ar gael ar <https://llyw.cymru/prentisiaethau-sgiliau-a-hyfforddiant>.

5. Mesurau Sicrhau Ansawdd

5.1 Mae gan yr Awdurdod Cyhoeddi rôl allweddol o ran sicrhau bod ansawdd y fframweithiau yn addas i'r diben ac yn bodloni safonau diwydiant.

5.2 Pan fydd yr Awdurdod Cyhoeddi yn cael fframwaith/llwybr, caiff y meysydd allweddol a ganlyn eu hystyried ganddo a bydd yn ofynnol cyflwyno tystiolaeth cyn i'r fframwaith gael ei gyhoeddi a'i ddarparu gan y darparwyr prentisiaethau. Defnyddir yr un dull gweithredu hwn ni waeth a yw'n fframwaith newydd, yn fframwaith sy'n cael ei ddiweddarau neu'n achos o ychwanegu/newid cymhwyster mewn fframwaith prentisiaeth. Caiff yr un broses sicrhau ansawdd ei dilyn hefyd ni waeth a yw'r fframwaith wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru neu drwy ddull arall.

5.3 Mae'r mesurau ansawdd a gaiff eu hystyried yn cynnwys:

- yr anghenion economaidd ar gyfer y fframwaith. Rhaid bod angen y fframwaith neu lwybr am resymau economaidd digonol cyn ei ddatblygu. Rhaid i'r holl fframweithiau gael eu cymeradwyo gan Fwrdd Cyngori Prentisiaethau Cymru pan fo'r fframweithiau wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Caiff Bwrdd Cyngori Prentisiaethau Cymru ei hysbysu am yr holl fframweithiau prentisiaeth sydd wedi eu cymeradwyo a'u cyhoeddi, hyd yn oed os nad ydynt wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru.
- Rhaid cwblhau'r broses ymgynghori ac ystyried canlyniadau'r broses honno cyn cyflwyno'r fframwaith terfynol i Lywodraeth Cymru. Rhaid darparu tystiolaeth bod arbenigwyr yn y sector a rhanddeiliaid allweddol wedi sicrhau ansawdd y fframwaith ac yn ei gymeradwyo.
- Rhaid bod tystiolaeth bod darparwr prentisiaethau yn meddu ar y medrusrwydd i ddarparu'r fframwaith/llwybr yng Nghymru.
- Rhaid i'r fframwaith/llwybr gydymffurfio â Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru.
- Rhaid bod gwerth ariannu wedi ei nodi.
- Rhaid i'r fframwaith/llwybr fod yn ddwyieithog.

6. Y broses o gyhoeddi fframweithiau

Cyflwyno

6.1 Rhaid anfon y fframwaith/llwybr i Lywodraeth Cymru ar ffurf electronig drwy e-bost i DfES-ApprenticeshipUnit@gov.wales. Bydd y Partner Datblygu yn cael cadarnhad bod y fframwaith/llwybr wedi dod i law o fewn 2 ddiwrnod gwaith.

6.2 Os nad yw cadarnhad yn dod drwy e-bost ar ôl dau ddiwrnod gwaith, mae'n bosibl y cafwyd anhawster gyda'r neges e-bost gyntaf, felly dylai'r Partner Datblygu gysylltu â naill ai Lisa Flay ar Lisa.Flav@gov.wales neu ar 03000 259892 neu drwy anfon neges i flwch post yr Uned Prentisiaethau DfES-ApprenticeshipUnit@gov.wales.

6.3 Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r gwaith gwirio ansawdd, fel yr amlinellir yn Adran 5 o'r ddogfen hon, ac yn anfon llythyr at y Partner Datblygu drwy e-bost yn naill ai'n cymeradwyo cyhoeddi'r fframwaith/llwybr neu'n gwrthod y fframwaith/llwybr gan nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

Y broses o gymeradwyo'r fframwaith

6.4 Ar ôl i Lywodraeth Cymru gynnal y gwiriadau dilysu a bod y fframwaith/llwybr wedi bodloni'r ansawdd gofynnol, caiff y fframwaith/llwybr ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru <https://llyw.cymru/prentisiaethau-sgiliau-a-hyfforddiant> o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl ei gymeradwyo.

6.5 Bydd y Partner Datblygu yn cael llythyr yn cadarnhau bod y fframwaith/llwybr wedi ei gyhoeddi o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl i Lywodraeth Cymru gael y fframwaith/llwybr. Bydd crynodeb dwyieithog o'r fframwaith a'r fframwaith/llwybr manwl yn cael eu cyhoeddi ar y wefan a bydd dolen i'r dogfennau wedi ei nodi yn y llythyr.

Y broses o wrthod fframwaith

6.6 Ar ôl i Lywodraeth Cymru gynnal yr holl wiriadau dilysu, fel yr amlinellir yn adran 5 - Mesurau Sicrhau Ansawdd, a'i bod wedi penderfynu nad yw'r fframwaith/llwybr yn bodloni'r gwiriadau ansawdd gofynnol, ni chaiff y fframwaith/llwybr ei gyhoeddi.

6.7 Anfonir llythyr at y Partner Datblygu o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl cyflwyno'r fframwaith/llwybr. Bydd y llythyr yn nodi'r penderfyniad ac yn rhoi rhesymau manwl pam nad oedd y fframwaith/llwybr yn cyrraedd y safon ofynnol.

6.8 Gall y Partner Datblygu wneud y newidiadau angenrheidiol ac ailgyflwyno'r fframwaith/llwybr i Lywodraeth Cymru i flwch post yr Uned Prentisiaethau DfES-ApprenticeshipUnit@gov.wales.

7. Y broses apelio

7.1 Caiff y Partner Datblygu gyflwyno apêl os nad yw'n cytuno â'r penderfyniad. Rhaid i'r Partner Datblygu ysgrifennu at Lywodraeth Cymru o fewn 10 diwrnod gwaith yn nodi'r rhesymau dros gyflwyno'r apêl a darparu unrhyw dystiolaeth ychwanegol.

7.2 Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth bellach i'r fframwaith/llwybr. Gall hyn gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid neu arbenigwyr yn y sector i ddod i benderfyniad ar sail gwybodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi penderfyniad o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl i'r apêl ddod i law.

8. Cwynion

8.1 Os yw'r Partner Datblygu yn ystyried ei fod wedi ei drin yn annheg neu os oes gan y Partner Datblygu bryderon ynghylch y penderfyniad, dylai ysgrifennu at flwch post yr Uned Prentisiaethau DfES-ApprenticeshipUnit@gov.wales neu fel arall gellir anfon llythyr i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Prentisiaethau
Llywodraeth Cymru
Tŷ Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
Cymru
CF83 8WT


8.2 Bydd uwch reolwr yn cynnal ymchwiliad pellach i'ch cwyn. Bydd y Partner Datblygu yn cael llythyr yn nodi'r canlyniad a'r camau nesaf.

8.3 Os yw'r Partner Datblygu o'r farn nad yw'r gŵyn wedi ei datrys o hyd, gall gysylltu ag Uned Cwynion Llywodraeth Cymru drwy e-bost i complaints@gov.wales neu fel arall gellir anfon llythyr i'r cyfeiriad a ganlyn:

Y Tîm Cynghori ar Gwynion
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

8.4 Mae rhagor o wybodaeth am broses gwyno Llywodraeth Cymru ar gael yma - <https://llyw.cymru/sut-i-wneud-cwyn-am-lywodraeth-cymru-html>.

Map o Broses yr Awdurdod Cyhoeddi Fframweithiau Prentisiaethau



Fframweithiau Prentisiaethau – Comisiynu ADOLYGIAD o Fframweithiau/Llwybrau Llywodraeth Cymru – Y 4 CAM DATBLYGU – Trosolwg o'r Broses

